

| | |
|---------------------------------|--|
| Adroddiad i'r | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Dyddiad yr adroddiad | 16 Mawrth 2022 |
| Aelod/ Swyddog Arweiniol | Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo |
| Awdur yr adroddiad | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo |
| Teitl | Crynodeb Archwilio Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru |

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Y Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac anfonwyd at Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno, er gwybodaeth, y Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, gan Swyddfa Archwilio Cymru (Atodiad 1). Mae'r Crynodeb Archwilio Blynyddol yn dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Mae'r crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych gan Swyddfa Archwilio Cymru.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Crynodeb Archwilio Blynyddol i'r Pwyllgor. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno canfyddiadau a

negeseuon canolog. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn croesawu'r crynodeb ac yn edrych ymlaen at barhau'r berthynas waith ardderchog sydd gennym gyda'n Harchwilwyr Allanol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae darparu gwybodaeth ariannol yn brydlon ac yn gywir yn cyfrannu at foderneiddio'r cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac mae'n galluogi'r preswylwyr i graffu ar weithgareddau'r Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Barn broffesiynol y Pennaeth Addysg a'r Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych drwy gydol y broses archwilio ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion sy'n codi o waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yw rhan olaf darparu sicrwydd bod y Datganiad Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn rhoi barn wir a theg ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'n braf nodi eto bod yr archwiliad yn ddiamod.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y risg yn y pen draw yw nad yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei gynhyrchu'n brydlon, neu eu bod yn cael eu cynhyrchu gyda gwallau materol a/neu sylweddol ynddynt a fyddai'n golygu bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cymhwyso'r cyfrifon. Byddai canlyniad o'r fath yn cael effaith andwyol ddifrifol ar enw da Cyngor Sir Ddinbych.

10.2 Mae'r adroddiad ei hun yn helpu i leihau'r risg bod y Cyngor yn methu â chyflawni ei gyfrifoldebau i sicrhau gwelliant parhaus, gwerth am arian, datblygiad cynaliadwy a threfniadau cyfrifeg priodol drwy roi gwybod am unrhyw bryderon gan y Swyddfa Archwilio Blynyddol bob blwyddyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae'r llythyr yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Swyddfa Archwilio Cymru o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'u cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Yn benodol mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru

- gynnig barn archwilio ar y datganiadau cyfrifo;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau.